CO16385 Ysgol-Y-Wern - S106 Cynllun Bolardiau (CO16385)

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae Aelodau'r Ward Leol ac aelodau'r cyhoedd wedi mynegi pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn ardal Ysgol Gynradd y Werin ar Llangranog Road, Llanisien, Caerdydd. Mae nifer o faterion wedi'u codi yn ymwneud â cherbydau yn gyrru dros y droedffordd ac yn parcio arni gan rwystro cerddwyr rhag parhau ar hyd y llwybr hwn.

Mae arolygon wedi'u cynnal sydd wedi nodi bod Gorchmynion Rheoli Traffig "Dim Aros ar Unrhyw Adeg" eisoes ar waith o gwmpas cyffyrdd Bethel Place a Coed Cochwyn Avenue. Fodd bynnag, nodwyd bod y cerbydau'n anwybyddu'r cyfyngiadau hyn ac yn parcio ar y droedffordd yn y lleoliadau hyn. Mae parcio fel hyn yn peri rhwystr ar y droedffordd gan orfodi cerddwyr i gerdded ar y ffordd gerbydau mewn lleoliadau penodol ar hyd y llwybr hwn. Felly, bwriedir cyflwyno bolardiau o gwmpas cyffyrdd Llangranog Place, Bethel Place a Coed Cochwyn Avenue i atal cerbydau rhag parcio ar y droedffordd.

Hefyd, caiff Arwyddion Mynediad Ysgol eu cyflwyno ar bob heol sy'n heibio'r ysgol er mwyn sicrhau bod gyrwyr yn ymwybodol eu bod yn agosáu at ysgol.

Bydd gweithredu'r prosiect hwn yn gwella diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig ar gyfer cerddwyr, a bydd yn ffurfio rhan o'r fenter Llwybrau Diogelach i Ysgolion.

Gwybodaeth ychwanegol am fesurau rheoli traffig

Bolard. Postyn wedi'i wneud o amryw ddeunyddiau yw hwn a chaiff ei ddefnyddio i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y droedffordd neu'r ymyl.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **07/08/2017**

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **07/08/2017**

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD